





dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru



CYMRAG

Dysgu
Learn

Amdani



Mwynhau llyfrau Amdani!


Mae llyfrau Amdani, ar gyfer dysgwyr Cymraeg, yn bump oed. Mae dros 40 o lyfrau ar gael. Dych chi wedi darllen rhai ohonyn nhw?

Mae llyfrau ar gael ar bob lefel dysgu o Mynediad i Uwch 1. Mae'r llyfrau yn cynnwys storïau ditectif, nofelau serch, hunangofiannau, comedi a storïau byrion.

Dych chi'n gallu benthyg llyfrau Amdani o'r llyfrgell, neu brynu rhai yn eich siop lyfrau leol neu ar gwales.com.

MWYNHEWCH!





Mae Francesca Sciarrillo, enillydd Medal y Dysgwyr Eisteddfod yr Urdd Caerdydd 2019, yn gweithio i Gyngor Llyfrau Cymru. Mae hi'n ysgrifennu colofn bob wythnos i Lingo.360.Cymru.

Beth oedd dy hoff lyfr yn blentyn?
Matilda gan Roald Dahl. Ro'n i'n gweld Matilda yn debyg i fi, hogan fach swil oedd yn licio darllen a mynd i'r llyfrgell!

Lle wyt ti'n ysgrifennu dy golofnau?
Adra fel arfer, ond weithiau mewn caffi neu yn y llyfrgell – wastad efo panad wrth fy ochr, wrth gwrs!

Beth sy'n dy ysbrydoli i ysgrifennu dy golofnau?
Llyfrau a darllen fel arfer, ond hefyd cerddoriaeth – dyma'r pethau sy'n bwysig yn fy mywyd i. Dw i hefyd yn mwynhau ysgrifennu am fwyd: ryseitiai o'r Eidal fel arfer.

Faset ti'n hoffi ysgrifennu llyfr? Am beth?
Yn bendant. Dw i eisiau ysgrifennu yn y Gymraeg, ac o bosib am hanes fy nheulu yn symud o'r Eidal i Gymru. Ers dechrau dysgu Cymraeg, mae ysgrifennu yn y Gymraeg wedi bod yn freuddwyd i mi.


Hoff lyfrau Amdani Francesca

Mae Francesca wedi darllen llyfrau Amdani. Yma, mae hi'n rhestru ei hoff lyfrau:

MYNEDIAD

Stryd y Bont gan Manon Steffan Ros
Stori sy'n edrych ar gymeriadau lliwgar Stryd y Bont. Pa **gyfrinachau** sydd ganddyn nhw, a pha gysylltiadau sydd rhyngddydd nhw?


Chwedlau Cymru: Ceffylau gan Fiona Collins
Chwe chwedl am geffylau. Mae'r chwedlau'n dod o Sir y Fflint, Morgannwg, Sir Gaerfyrddin, Gwynedd, Sir Benfro a Phowys.



SYLFAEN

Teithio Drwy Hanes gan Jon Gower
Mae'r llyfr yma'n disgrifio 30 o leoedd gwahanol sy'n bwysig yn hanes Cymru.


Yn Ei Gwsg gan Bethan Gwanas
Nofel fywiog sy'n dilyn **dirgelwch** damwain car. Mae Dafydd, sy'n cerdded yn ei gwsg, yn deffro'n waed i gyd... ond pwy sy ar fai?



CANOLRADD

Y Daith – Straeon i ddysgwyr gan ddysgwyr
Casgliad o ddeg stori i ddysgwyr gan ddysgwyr. Mae gan bob stori **dro yn ei chynffon**.

Gêm Beryglus gan Richard MacAndrew
Stori am **lofruddiaethau** ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.



UWCH

Cawl a Straeon Eraill
Casgliad o straeon byrion sy'n rhoi blas ar steiliau gwahanol o ysgrifennu – o'r **arswydus** i'r **ffraeth**.

Rob gan Marek Lewis
Mae Rob yn symud i fyw i dŷ ei fodryb gyda'i ddau blentyn, ac yn dechrau bywyd newydd fel tad sengl. Nofel lawn hiwmor, gyda nifer o themâu cyfoes.



GEIRFA

serch – love
colofn – column
cyfrinachau – secrets

dirgelwch – mystery
tro yn ei chynffon – twist in its tail

lofruddiaeth – murder
arswydus – scary
ffraeth – witty



Diolch i'r awdur a'r tiwtor Cymraeg, Bethan Gwanas am y stori yma. Mae Bethan wedi ysgrifennu llyfrau yng nghyfres Amdani, sef Yn ei gwsg a thair stori sy'n dilyn hanes Blodwen, y llyfrgellydd.

Roedd y caffi yn braf ac yn gynnes. Ac roedd y coffi yn dda ac yn boeth. Roedd hen ddynes yn eistedd wrth un bwrdd wrth y ffenest, a gŵr a gwraig wrth fwrdd arall. Edrychodd yr hen ddynes drwy'r Daily Post, wedyn drwy'r ffenest. Dyn yn smocio wrth gerdded gyda'i gi. Merch yn chwerthin a fflyrtio gyda bachgen y tu allan i Boots. Pobl yn cerdded gyda bagiau siopa. Neb diddorol.

Sipiodd ei latte. Yna, gwelodd olau glas yn fflachio, ac yn sydyn, stopiodd car heddlu tu allan. Yna, car du, drud y tu ôl iddo fo. Aeth plismon a phlismones at y car du, a daeth dau ddyn allan, yn flin, ac yn datws i gyd.

"W! Diddorol!" meddai'r wraig wrth ei gŵr. Drygs mae'n siŵr... cyffuriau."

"Hm. Mae'n bosib," meddai'r gŵr.

"Neu GBH."

Roedd gan y ddau ddyn **gyhyrau** mawr.

"Neu yrru'n rhy gyflym," meddylodd yr hen ddynes gan sipian ei latte.

Roedd y car yn un cryf, cyflym. Jaguar, ac roedd y blismones yn chwilio tu mewn.

"Neu gar wedi ei ddwyn..." meddai'r gŵr.

"W, ia! Neu rywbeth wedi ei ddwyn o leia," meddai ei wraig.

"Hei! Mae hyn fel y teledu – fel gwyllo Midsomer Murders!"

Gwylodd pawb y plismon yn sgwennu yn ei lyfr bach. Roedd pobl gyda bagiau siopa yn cerdded heibio yn araf iawn, iawn. "Maen nhw'n edrych fel dynion drwg, tydyn?" meddai'r wraig.

"Ydyn, dynion peryglus," meddai'r gŵr.

"O Lerpwl neu rywle, yn siŵr i ti."

"Oi, mae Dad yn dod o Lerpwl..." meddai'r wraig.

"O, ydy, mae'n ddrwg gen i. Ond ti'n gwybod be dw i'n ei feddwl... dydyn nhw ddim yn lleol."

"O, na. Does neb drwg yn byw fan hyn."

Ar ôl deg munud, daeth y blismones yn ôl allan o'r car.

"Aros funud," meddai'r wraig. "Mae hi'n siarad gyda nhw... ond – edrych!"

Roedd y dynion yn gwenu ac yn ysgwyd llaw gyda'r heddlu.

"Ooo..." meddai hi'n siomedig wrth wyllo'r dynion yn mynd yn ôl i mewn i'r Jag du ac yn gyrru i ffwrdd.

Gwylodd yr hen ddynes yr heddlu yn mynd yn ôl i mewn i'w car nhw, a gyrru i ffwrdd. Gorffennodd ei latte a gadael y caffi gyda'i bag mawr du; bag oedd yn cuddio **gemau** a deiamwntiau gwerth can mil o bunnoedd a phistol Glock 17.

Gwenodd ar y gŵr a'r wraig wrth basio'r ffenest.

Y CAFFI

GAN BETHAN GWANAS

GEIRFA

llyfrgellydd – librarian
cyhyrau – muscles
gemau – jewels

NEWYDDION AMDANI

Mae tri llyfr newydd yn cael eu cyhoeddi eleni:

MYNEDIAD

Chwedlau Cymru: Y Môr gan Fiona Collins – Dyma chwe **chwedl** o Gymru am y môr. Maen nhw'n chwedlau enwog yn hanes Cymru - fel **chwedl** Cantre'r Gwaelod a hanes Bendigeidfran yn croesi'r môr i Iwerddon o'r Mabinogi.

SYLFAEN

Y Llyfr gan Pegi Talfryn – Nofel **ddirgelwch** am ferch ifanc o Newcastle upon Tyne sy'n dod i Gymru er mwyn cychwyn ar ei thaith i ddysgu'r Gymraeg.

CANOLRADD

Hen Ferchetan gan Ewan Smith – Stori ydy hon am Lisa o'r Hendre sy'n cael ei siomi gan ei chariad ac yn torri ei chalon. Mae hi'n **hiraethu** am gael teulu ond dydi hi ddim yn rhoi'r gorau iddi. Mae hi'n mynd i Ffair y Bala gyda'i ffrind, Llinos, ac yn **cymryd rheolaeth** o'i bywyd.

Bydd llyfrau Amdani hefyd ar gael fel **llyfrau llafar** cyn bo hir.



Gŵyl Ddarllen Dysgu Cymraeg
Learn Welsh Festival of Reading

Er mwyn dysgu mwy am lyfrau Amdani, ewch i dysgucymraeg.cymru

Yno mae rhestr lawn o'r teitlau, a gwybodaeth am Wyl Ddarllen Amdani, sef gŵyl ddarllen rithiol i ddysgwyr, sy'n cael ei chynnal bob blwyddyn, er mwyn dathlu'r gyfres lyfrau.

HOLI BETHAN ELLIS OWEN

Yma 'dyn ni'n holi'r actores, Bethan Ellis Owen. Mae Bethan yn chwarae rhan Ffion Llywelyn yn 'Pobol y Cwm', ac mae wedi actio mewn sawl drama gan Theatr Genedlaethol Cymru. Mae Bethan wedi darllen rhai o lyfrau llafar cyfres Amdani...

Oes gen ti hoff lyfr?

Dw i wrth fy modd efo Un Nos Ola Leuad gan Caradog Pritchard. Ond y llyfr wnes i fwynhau fwyaf oedd **hunangofiant** Julie Goodyear oedd yn chwarae Bet Lynch ar Coronation Street.

Oes gen ti amser i ddarllen?

Does gen i ddim llawer o amser i ddarllen ar hyn o bryd achos mae gen i ferch fach pedwar mis oed o'r enw Jesi Iris. Hefyd, dw i newydd ddechrau ffilmio cyfres newydd Anfamol, yn seiliedig ar y ddrama lwyfan gan Rhiannon Boyle.

Wyt ti'n gwrandao ar lyfrau llafar?

Dw i ddim yn gwrandao ar lyfrau llafar ond baswn i'n hoffi dechrau gwneud. Dw i eisiau trio mynd am dro hir a gwrandao wrth gerdded.

Faint o lyfrau Amdani wyt ti wedi eu darllen?

Dw i wedi darllen naw: Yn ei Gwsg, Cyffesion Saesnes yng Nghymru, Gangsters yn y Glaw, Gêm Beryglus, Teithio drwy hanes, Blacmêl, Cofio Anghofio, Y Llythyr a Cariad Pur.

Oes gen ti ffefryn?

Gwnes i fwynhau nhw i gyd ac ro'n nhw i gyd mor wahanol. Fy ffefryn oedd Cyffesion Saesnes yng Nghymru achos roedd ychydig o hiwmor a chymeriadau da yn y llyfr.

Sut wnest ti fynd ati i wneud y gwaith darllen?

Roedd Jack, fy mhartner, yn darllen rhai o'r llyfrau hefyd. Ro'n ni'n mynd i Gaerfyrddin gyda'n gilydd i wneud y gwaith recordio ar ddydd Sul.

Oedd dy brofiad actio o gymorth wrth wneud y gwaith darllen?

Roedd y cefndir actio yn help wrth wneud y gwaith darllen ond eto, dydi o ddim yr un peth. Rhoi **awgrym** o gymeriad ro'n i'n ei wneud, ddim actio pob cymeriad.

Wrth wneud y gwaith, wnest ti gadw mewn cof mai dysgwyr oedd y gynulleidfa, a sut?

Ro'n i'n cadw mewn cof mai llyfrau i ddysgwyr oedden nhw a bod rhai llyfrau yn addas i ddysgwyr newydd sbon. Felly ro'n i'n trio arafu wrth recordio'r llyfrau cyntaf ond yna cyflymu ychydig wrth gyrraedd y llyfrau i ddysgwyr mwy profiadol.

GEIRFA

chwedl – myth
hiraethu – to long for
cymryd rheolaeth – to take control
llyfrau llafar – audio books

hunangofiant – autobiography
seiliedig – based upon
mynd ati – to go about
awgrym – hint

